



**YSGOL
LLANFYLLIN**

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd tymor anhygoel o heriol, gallwn edrych yn ôl ar bopeth rydym wedi cyflawni fel cymuned ysgol pob oed gyda balchder aruthrol.

Unwaith eto mae eich plant wedi addasu'n wych i'r holl newidiadau rydym wedi ei gwneud yma yn yr ysgol, gan gynnwys symudiad enfawr i'n disgyblion iau o'r hen adeilad ysgol gynradd i'w cartref newydd ym mhrif adeilad yr ysgol. Maent wedi setlo'n gyfforddus iawn ac wedi mwynhau tymor cyfan yn eu dosbarthiadau newydd ac wedi mwynhau defnyddio'r cyfleusterau newydd, megis y labordy Gwyddoniaeth a'r ystafell TG bwrpasol. Mae ein myfyrwyr chweched dosbarth hefyd wedi setlo'n dda yng nghyfleusterau 'Canolfan Chweched' yn adeilad yr hen ysgol gynradd. Mae'r ganolfan ar ei newydd wedd yn cynnig cyfleusterau gwych i fyfyrwyr yn cynnwys eu caffi eu hunain, ystafell gyffredin, ardaloedd hunan-astudio, manau e-ddysgu ac ystafelloedd dosbarth ôl-16 penodol. Mae hwn yn ychwanegiad rhagorol i'n hysgol pob oed rhyfeddol.

Rydym hefyd wedi gorfod sicrhau bod amgylchedd yr ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae'r holl ddisgyblion wedi gweithio'n wych gyda'u hathrawon i'n helpu i sicrhau fod yr ysgol mor ddiogel ag y gall fod a hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaol yn yr ymdrech hon.

Rydym yn hynod falch o'n myfyrwyr blwyddyn 11 sydd wedi cwblhau eu harholiadau ffug yr wythnos hon - da iawn chi i gyd! A allaf fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi oll am y gefnogaeth anhygoel yr ydych wedi'i dangos i'ch plant a'r ysgol. Mae gwydnwch a phenderfyniad y disgyblion i lwyddo yn wyneb yr holl heriau cyfredol i'w haddysg yn creu cymaint o argraff arnom, maent yn fodolau rôl rhagorol ar gyfer y gymuned gyfan.

Fel rhan o'n sicrwydd ansawdd parhaus, byddem yn ddiolchgar iawn os byddech yn cwblhau'r holiadur canlynol ynglŷn â'ch barn am yr ysgol: [Parental questionnaire](#)

Pan fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr mae'n hynod bwysig fod rhieni yn ofalus ac nad ydynt yn anfon eu plant i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw salwch yn arbennig os oes ganddynt unrhyw symptomau covid (tymheredd uchel; peswch parhaus; wedi colli blas neu arogl)

Diolch yn fawr unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus a gwerthfawr, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni Os oes gennych unrhyw bryderon y gallwn eich helpu gyda. Cofiwch fod y tymor newydd yn cychwyn gyda gwersi arlein ddydd Gwener Ionawr 7^{fed} 2022 a dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ddydd Llun Ionawr 10^{fed} 2022. Gwiriwch ein ap ysgol am ddiweddariadau pellach dros gyfnod y Nadolig.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi ar yr adeg arbennig yma o'r flwyddyn a gobeithio y bydd 2022 yn dod ac iechyd a hapusrwydd i chi. Mwynhewch wyliau hapus, heddychlon, gorffwysol a diogel iawn.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Hapus ac Iach i chi i gyd oddiw'rth bawb yn Ysgol Llanfyllin.

Dymuniadau gorau.

Mr Dewi Owen
Pennaeth

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol /
Assistant Headteachers**

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux